

ARHOLIADAU 360°



Edrych yn fanylach ar y dull allbynnau cymharol

Mae'r dull allbynnau cymharol wedi'i ddefnyddio gan reoleiddwyr cymwysterau'r DU ers sawl flwyddyn bellach fel y prif fecanwaith i rwystro chwyddiannau gradd dros amser.

Prif nod y dull, fodd bynnag, yw diogelu myfyrwyr fel nad ydyn nhw dan anfantais annheg drwy fod y cyntaf i sefyll cymhwyster newydd. Hynny yw, dylid dyfarnu'r myfyrwyr cyntaf sy'n sefyll yr arholiadau newydd rhain gyda'r un graddau ag y byddent wedi'u derbyn petaen nhw wedi sefyll yr hen arholiadau.

Mae felly'n golygu os yw'r cohort cenedlaethol - yr holl ymgeiswyr sy'n sefyll cymhwyster - yn debyg i rai'r llynedd, yna rydym yn disgwyl i ganlyniadau eleni fod yn debyg, ar lefel genedlaethol. Mae'r dull 'allbynnau cymharol' hwn wedi'i dreialu a'i ddefnyddio, ac wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn y gorffennol gan fyrddau arholi i gynnal safonau mewn cyfnod o newid cymwysterau.

Os nad yw'r cohort wedi newid llawer, yna ni fyddai disgwyl i'r canlyniadau newid rhyw lawer ychwaith. Wrth gyflwyno cymwysterau newydd, mae'n ymarfer sefydledig iawn i roi blaenoriaeth i allbynnau cymharol dros berfformiad cymharol.


Pe bai'r dyfarniadau wedi'u seilio ar farnu perfformiad, gallai myfyrwyr fod dan anfantais am eu bod yn debygol o dderbyn marciau is am nad ydyn nhw'n gyfarwydd gyda'r arholiadau newydd. Mae'r dull allbynnau cymharol yn gwneud yn iawn am y cwmp bychan tebygol mewn perfformiad wrth gyflwyno cymwysterau newydd.

Ond sut ydych chi'n sicrhau bod y myfyrwyr cyntaf sy'n sefyll yr arholiadau newydd rhain yn cael eu dyfarnu gyda'r un graddau ag y byddent wedi'u derbyn petai nhw wedi sefyll yr hen arholiadau?

Pan fydd cymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno, mae myfyrwyr yn y blynyddoedd cyntaf yn debygol o gael marciau is yn yr arholiadau na'r myfyrwyr yn y blynyddoedd blaenorol, a oedd yn fwy cyfarwydd gyda'r arholiad. Adnabyddir y patrwm o newid hwn a achosir wrth ddiwygio asesiad fel yr effaith 'dant llif'. Yn benodol, mae perfformiad asesiadau pwysig yn cael ei effeithio'n negyddol pan fo'r asesiad yn cael ei ddiwygio, yna'n gweld patrwm o berfformiad gwell dros amser wrth i'r myfyrwyr ac athrawon ddechrau ymgyswngi gyda'r prawf newydd.

Wrth osod ffiniau gradd, bydd tystiolaeth yn cael ei ystyried er mwyn gweld a oes angen addasiad i ganiatáu effaith y 'dant llif'.

parhad...



Pan fo tystiolaeth yn cefnogi presenoldeb yr effaith hwn, mae'n debygol y bydd y ffiniau gradd yn cael eu lleihau er mwyn gwneud yn iawn am y cwmp ym mherfformiad y myfyrwyr rheiny sy'n sefyll arholiad newydd. Mewn termau ymarferol, efallai y byddwn angen i fyrrdau arholi addasu'r terfynau gradd er mwyn gwneud yn iawn am yr effaith.

Er mwyn adnabod a mesur yr effaith 'dant llif', rydym angen i'r byrrdau arholi ymgymryd â dadansoddiad ystadegol a modelu i gefnogi barn uwch-arholwyr o waith ymgeiswyr ar ffiniau graddau allweddol yn ystod y broses ddyfarnu.

A fydd hyn yn golygu y bydd canlyniadau eleni yn edrych yr un peth a chanlyniadau llynedd?

Os ydi'r cohort sy'n sefyll y cymhwyster yn debyg i gohort y llynedd, yna byddwn yn disgwyl i'r canlyniadau ar lefel genedlaethol i fod yn debyg eleni. Hyn fydd yr achos o fewn rhai pynciau. Fodd bynnag, rydym yn gwybod fod nifer o bynciau wedi gweld newidiadau mawr, wrth ystyried natur y cohort sy'n sefyll yr arholiadau. Yn yr achosion rhain, ni fyddwn yn disgwyl i'r canlyniadau cyflawn fod yn debyg i rai'r llynedd.

O ystyried y newidiadau hyn, dylid trin y canlyniadau gyda gofal. I fod yn ystyrllon, mae'n hanfodol cymharu tebyg wrth debyg. Pan fyddwn yn gwneud cymariaethau, byddwn yn cymharu canlyniadau plant 16 mlwydd oed, o un flwyddyn i'r llall.

Gair olaf

Mae'r dull allbynnau cymharol yn cael ei weithredu ar lefel cohort gyfan a bydd yn sicrhau bod y cyfnewidioldeb mewn allbynnau ar lefel genedlaethol yn gyfyngedig pan fo'r cohort yn debyg i flynyddoedd blaenorol.

Hyd yn oed pan nad oes newid i'r cymwysterau, bydd ysgolion a cholegau unigol efallai'n gweld amrywiaeth gyda'u canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, pan fo cymhwyster yn newydd, gall fod mwy o amrywiaeth na'r arfer yn y canlyniadau i ysgolion a cholegau unigol, wrth gymharu o flwyddyn i flwyddyn

Gall hyn fod oherwydd amryw o ffactorau, gan gynnwys newid mewn strategaeth mynediad neu newid mewn dull o ddarparu cymhwyster ac - ar gyfer cymwysterau newydd - ymgyfarwyddo gyda'r arholiad.



More information: www.qualificationswales.org E: enquiries@qualificationswales.org

T: 01633 373 222

 @quals_wales